**CYFARFOD Y CYNGOR** **20fed GORFFENNAF 2016**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 15fed Mehefin 2016 | - Rhifau Cofnod 19-29 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 15fed Mehefin 2016 | - Rhifau Cofnod 4-7 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 6ed Gorffennaf 2016 | - Rhifau Cofnod 8-10 (copi i ddilyn) |

I Gadarnhau neu fel arall:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 6ed Gorffennaf 2016 | - Rhifau Cofnod 22-37 |

## 3. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

## 4. CYFLWYNIAD: CYNGRO SIR DDINBYCH – SWYDDOGION GORFODI

Croesawu Mr Tim Wynne-Evans, Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, i roddi diweddariad i'r Cynghorwyr ar weithgareddau gorfodi yn y Rhyl ac ymateb i gwestiynau'r Aelodau.

## 5. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GRŴP YR HEDDLU CYMDOGAETH GORLLEWIN Y RHYL

Ar gais y cynrychiolydd a benodwyd, y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE, derbyn adroddiad ar ei phresenoldeb mewn cyfarfodydd o'r uchod.

## 6. CRONFA CYMUNEDAU'R ARFORDIR

Derbyn adroddiad y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE (copi o ddatganiad i'r wasg yn amgaeëdig).

7. **SEIBIANT MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Cadarnhau trefniadau i ddirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r Aelodau canlynol ar gyfer y cyfnod 21ain Gorffennaf 2016 hyd at 7fed Medi 2016:

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Maer a/neu Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Eitemau Pwyllgor CSG | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd Pwyllgor CSG |
| Holl Faterion Eraill | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol |

8. **EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

9. **HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

10. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

11. **EITEM AELOD: SHIRLEY SMITH'S BLACK BELT KARATE ACADEMY**

Y Cynghorydd B. Mellor i hysbysu'r cyfarfod o daith yr Academi i Sisili i gymryd rhan ym Mhencampwriaeth Crefftau Ymladd Unedig y Byd (WUMA) a chyflwyno cais i'r Aelodau ei ystyried.

12. **ARENA DIGWYDDIADAU - FFANBARTH**

Cadarnhau'r penderfyniad a gymerwyd gan Glerc y Dref mewn ymgynghoriad ag Aelodau i'r Cyngor Tref rannol ariannu'r Ffanbarth.

13. **RHYDDREINWYR ANRHYDEDDUS**

Ystyried cais a dderbyniwyd gan un o'r Rhyddfreinwyr Anrhydeddus.

14. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.